GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470 (LLANGURIG, POWYS I FALLWYD, GWYNEDD) (CYFYNGIADAU CYFLYMDER A DIM GODDIWEDDYD DROS DRO) 2022

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A470, neu gerllaw iddi, rhwng Llangurig, Powys a Mallwyd, Gwynedd.

Effaith y Gorchymyn yw gosod terfyn cyflymder dros dro o 40 mya, 30 mya neu 10 mya ar y darn o gefnffordd yr A470 rhwng ei chyffordd gylchfan â'r A44 yn Llangurig a'i chyffordd gylchfan â'r A458 ym Mallwyd. Dim ond yn ystod gwaith confoi y bydd y terfyn cyflymder o 10 mya yn weithredol a ni chaniateir goddiweddyd ar yr adegau hynny.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 10 Ionawr 2022. Disgwylir y bydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad dros dro, y bydd eu hyd a'u lled yn amrywio, yn weithredol yn ysbeidiol o 08:00 o'r gloch ar 10 Ionawr 2022 am gyfnod hwyaf o 18 mis. Bydd hysbysiadau'n cael eu arddangos cyn i unrhyw waith ddechrau.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

Gellir cael copi o'r Hysbysiad hwn mewn print bras gan y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

THE A470 TRUNK ROAD (LLANGURIG, POWYS TO MALLWYD, GWYNEDD) (TEMPORARY SPEED RESTRICTIONS AND NO OVERTAKING) ORDER 2022

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A470 trunk road between Llangurig, Powys and Mallwyd, Gwynedd.

The effect of the Order is to impose a temporary 40 mph, 30 mph or 10 mph speed limit on the length of the A470 trunk road between its roundabout junction with the A44 at Llangurig and its roundabout junction with the A458 at Mallwyd. The 10 mph speed limit will only apply during convoy working and no overtaking will be permitted during these times.

The Order comes into force on 10 January 2022. The temporary restrictions and prohibition, whose extent will vary, are expected to operate on an intermittent basis from 08:00 hours on 10 January 2022 for a maximum duration of 18 months. Notices will be displayed before the start of any works.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government